



Teitl y Cyfarfod: Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF) ar Lygredd Amaethyddol

**Dyddiad y
Cyfarfod:** 8 Gorffennaf 2019

Lleoliad: Ymweliad safle â
Bae Cemaes, Ynys
Môn

Cyfarfod yn:
Swyddfa CNC
Bangor
LL57 2DW
a thros Skype

Yn bresennol: Zoe Henderson (aelod o fwrdd CNC a Chadeirydd)
Bob Vaughan (CNC)
Dennis Matheson (Cymdeithas y Ffermwyr Tenant)
Creighton Harvey (Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin)
Bernard Griffiths (FUW)
Helen Haider (CNC)
Marc Williams (CNC)
Sarah Hetherington (CNC)
Andrew Chambers (LIC)
Betsan John (LIC)
Ceri Davies (FUW)
Liz Franks (Hafren Dyfrdwy)
Kate Snow (United Utilities)
Geraint Davies (Aelod o Fwrdd CNC)
Euryn Roberts (CNC)
Daniel Grant (CNC)

**Dros Skype yn
Swyddfa CNC:** Steven Bradley (Dŵr Cymru)
Stephen Marsh-Smith (Cyswllt Amgylchedd Cymru)
Jamie McCoy (AHDB)

Ymddiheuriadau: Matt Lowe (CNC)
Rachel Lewis-Davies (NFU Cymru)
Meinir Wigley (CNC)
James Dowling (LIC)

Kirsten Hughes (HCC)
Lorna Davis (NFU Cymru)
Sara Jenkins (Menter a Busnes)
Rhianne Jones (CLA)
Geraint Weber (CNC)

Hefyd yn bresennol: Gareth Browning (LIC) eitem 3 yn unig

Rhif: Eitem

1. Ymweliad Safle â Bae Cemaes, Ynys Môn

Arweiniwyd yr ymweliad safle â Bae Cemaes a dalgylch rhan isaf yr Wygyr gan Euryr Roberts a Daniel Grant, CNC. Darparodd Euryr wybodaeth gefndir am safonau Dŵr Ymdrochi, ac eglurodd fod Bae Cemaes yn ddigonol yn 2016 ond wedi disgyn i wael ers dwy flynedd. Eleni, roedd statws y dŵr ymdrochi wedi codi'n ôl i ddigonol.

Pan ddosbarthwyd Bae Cemaes yn Wael, cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd cyhoeddus, a chafodd gweithgor ei sefydlu. Aeth yr Athro David Kay, Prifysgol Aberystwyth, ati i fonitro bacteria yn yr ardal ac i ddatblygu system modelu i ragweld y risgiau i ddyfroedd ymdrochi. Ym mis Mehefin 2018, dechreuodd Cyngor Sir Ynys Môn ddefnyddio'r model rhagweld newydd a ddatblygwyd gan Brifysgol Aberystwyth ar gyfer Bae Cemaes. Roedd y modelu a wnaed gan y cyngor yn dangos bod lefelau'r bacteria yn y dŵr yn cydberthyn agosaf i arllwysiad o afonydd, wedi'i ddilyn gan lawiad, ac yna ffactorau eraill megis tymheredd yr aer, lleithder cymharol ac uchder y llanw. Mae'r model newydd yn fwy soffistigedig na'r hen un, a oedd yn ystyried glawiad yn unig, a bydd yn gwella'r wybodaeth a ddarperir i'r cyhoedd. Caiff y rhagfynegiad ei ddiweddarau bob dydd yn ystod yr wythnos, ynghyd â dwywaith ar y penwythnos a Gwyliau Banc.

Pob tro y caiff y traeth ei samplu, cesglir potelaid ychwanegol y gellir ei dadansoddi ar gyfer DNA os bydd canlyniadau bacteriol y sampl yn uchel, a hynny er mwyn pennu ffynhonnell y llygredd ysgarthol.

Yr Wygyr yw'r brif afon yn y dalgylch y dylanwadir arni'n bennaf gan amaethyddiaeth. At hynny, mae Gwaith Trin Carthffosiaeth Llanfechell yn gwagio i mewn i'r afon; gall hyn hefyd gael effaith. Mae rhaglen yn cael ei chynnal i fonitro'r bacteria yn Afon Wygyr, a bydd hyn yn dangos o le y daw prif lwythi'r bacteria yn y dalgylch.

Esboniodd Daniel Grant bod gwaith wedi cael ei gynnal yn y dalgylch i wella ansawdd y dŵr a lleihau llwyth y bacteria sy'n effeithio ar y Dŵr Ymdrochi ar draeth Bae Cemaes. Mae CNC wedi gweithio gyda Dŵr Cymru, Awdurdodau Lleol, perchnogion tir a pherchnogion tai yn y dalgylch. Mae ardaloedd o'r cwrs dŵr wedi cael eu hamgáu gan ffensys i atal da byw rhag mynd i mewn i'r afon. Mae baeau yfed wedi cael ei

gosod ar gyfer cynlluniau llai ond, yn achos ffermydd mwy, bydd cafnau dŵr i'w cysylltu â'r prif gyflenwad dŵr y cael eu rhoi yn gyflenwad dŵr amgen. Ar ôl cynnal troeon o amgylch y dalgylchoedd, nodwyd ardaloedd allweddol lle dylid codi ffensys. Bydd rhagor o waith yn dechrau yn 2019 ac yn 2020, a hynny ledled y dalgylch cyfan.

Dangoswyd y traeth Dŵr Ymdrochi yng Nghemaes i'r aelodau cyn iddynt gerdded i fyny'r afon. Mae yna nifer o goredau artiffisial ar yr Wygyr, sy'n gweithredu fel rhwystr i bysgod mudol, ond gallant hefyd weithredu fel trapiau silt. Eglurwyd bod yr Ymddiriedolaeth Afonydd wedi torri rhiciau yn rhai o'r coredau er mwyn hwyluso symudiad y pysgod. Dangoswyd pont i'r aelodau, a oedd wedi cael ei chodi dros yr Wygyr fel man croesi amgen i atal da byw rhag mynd i mewn i'r dŵr. Ar hyn o bryd, mae yna fae yfed gyferbyn â'r bont i gyfyngu ar faint o dda byw sy'n mynd i mewn i'r cwrs dŵr. Fodd bynnag, bydd hwn yn cael ei gau cyn hir oherwydd bydd gan y fferm hon ffynhonnell ddŵr amgen o dwll turio y talwyd amdano'n ddiweddar gan CNC.

Bydd gwaith i atal llygredd, ynghyd ag ymgysylltu cydweithredol yn y dalgylch, yn parhau i wella rhagor ar statws ansawdd dŵr traeth Dŵr Ymdrochi Bae Cemaes.



Ymweliad safle aelodau Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru â Chemaes

2. Croeso ac Ymddiheuriadau

Diolchodd Zoe Henderson i bawb a oedd yn bresennol ar yr ymweliad safle â Bae Cemaes yn ystod y bore, gan deithio i'r man mwyaf gogleddol yng Nghymru. Bu'r ymweliad safle yn ddefnyddiol iawn, a diolchodd Zoe i Euryng Roberts a Daniel Grant am yr anerchiad yn ystod yr ymweliad safle. Croesawodd Zoe bawb i'r cyfarfod yn Swyddfa CNC ym Mangor, a diolchodd i Gareth Browning, LIC, am fod yn bresennol i drafod arloesedd â'r grŵp.

3. Menter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI) – llywio arloesedd gyda'r sector cyhoeddus

Rhoddodd Gareth Browning, LIC, gyflwyniad ar y Fenter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI), sy'n helpu i gysylltu sefydliadau sector cyhoeddus â chwmnïau i ddatblygu atebion arloesol. Mae SBRI yn broses gystadleuol a ddarperir gan Innovate UK ac sy'n defnyddio arloesedd busnes i ddatrys problemau a heriau sy'n wynebu'r sector cyhoeddus. Mae'n arwain at well gwasanaethau cyhoeddus a datblygiad economaidd. Gellir hefyd darparu cyllid ar gyfer y prosiectau. Mae Innovate UK yn annog rhagor o sectorau i ddefnyddio'r broses hon gan y bydd cynnal rhagor o brosiectau yng Nghymru yn creu rhagor o gysylltiadau â busnesau yng Nghymru ac yn annog gweithio trawsffiniol.

Mantais proses yr SBRI yw ei bod yn helpu'r sector cyhoeddus i elwa ar syniadau a thechnolegau newydd na fyddai ar gael iddynt trwy'r sianeli arferol. Gellir archwilio syniadau newydd, a rheolir hyn trwy raglen ddatblygu dreigl sy'n cynnal portffolio o'r prosiectau mwyaf addawol.

Darparodd Gareth Browning enghreifftiau o brosiectau sydd wedi bod yn llwyddiannus trwy'r SBRI. Roedd y rhain yn cynnwys Llwybr Arfordir Cymru Gyfan, her mwyngloddiau metelau CNC, ynni adnewyddadwy cludadwy, a Her GovTech Sir Fynwy. Nid yw'r SBRI wedi creu swyddi yng Nghymru ar hyn o bryd gan fod y cynllun yn dal i fod yn y camau cynnar. Y gobaith yw y bydd swyddi'n cael eu creu wrth i'r SBRI ddatblygu, gan gyfrannu at economi Cymru.

Bwriad prif ran y cyflwyniad oedd galluogi'r aelodau i gynnal trafodaeth a nodi amrywiaeth o bryderon ynghylch llygredd amaethyddol. O blith y pryderon hynny, gellir llunio rhestr o heriau i'w dosbarthu i'r aelodau, rhestr y gellir ei chyflwyno i Gareth Browning i'w hadolygu. Bydd yr heriau hyn yn eang er mwyn i sefydliadau awgrymu a datblygu atebion arloesol. Trefnir cyfarfod arall i drafod yr heriau hyn ymhellach. Bydd portffolio yn cael ei greu er mwyn symud ymlaen â'r heriau allweddol. Cynigiodd Gareth Browning i ddarparu templed ar gyfer portffolios er mwyn helpu â'r cais.

CG1: Coladu holl bryderon yr WLMF a nodi'r heriau i'w rhannu â'r Is-grŵp ac â Gareth Browning (Bob Vaughan/Marc Williams, CNC)

CG2: Trefnu cyfarfod arall i drafod rhagor ar yr heriau a llunio briff ar gyfer cystadleuaeth (Marc Williams, CNC)

CG3: Dosbarthu cyflwyniad yr SBRI i'r Is-grŵp (Helen Haider/Marc Williams, CNC)

CG4: Darparu templedi ar gyfer portffolios i helpu â'r cais (Gareth Browning, LIC)

4. Trefniadau ar gyfer cyfarfodydd Is-grŵp WLMF yn y dyfodol

Cynhelir cyfarfod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer Rheoli ar 16 Gorffennaf 2019 yn y Deml Heddwch, Parc Cathays, Caerdydd, lle bydd ADAS yn trafod adroddiad yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol a gyflwynwyd yn ddiweddar i'r Gweinidog.

CG5: Dosbarthu Adroddiad yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol gan ADAS i'r Is-grŵp mewn da bryd cyn cyfarfod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen (Andrew Chambers, CNC)

Bydd CNC yn cynnal Digwyddiad Rheoli Maethynnau ar stondin CNC yn y Sioe Amaethyddol Frenhinol, i ddechrau am 2pm, er mwyn hyrwyddo'r defnydd diogel o slyri. Bydd y siaradwyr gwadd yn cynnwys Kevin Thomas, LANTRA, a Chris Duller.

5. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mehefin a phwyntiau gweithredu sy'n disgwyl sylw

Darparwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mehefin i'r aelodau, a gofynnwyd iddynt wirio eu bod yn gywir. Gofynnodd Zoe Henderson am i'r holl bwyntiau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol gael eu cwblhau cyn gynted â phosibl.

CG6: Adolygu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mehefin ac anfon sylwadau/diwygiadau at Marc Williams erbyn 9 Awst (Pawb)

CG7: Dosbarthu'r camau gweithredu sy'n disgwyl sylw i'r Is-grŵp (Marc Williams, CNC)

CG8: Sicrhau bod yr holl gamau gweithredu sy'n disgwyl sylw oddi ar Is-grwpiau blaenorol yn cael eu cwblhau (Pawb)

6. Diweddariad ar weithgareddau perthnasol yn y dyddiadur

Roedd Zoe Henderson wedi bod yn nigwyddiad Strategol ffermydd llaeth cyntaf yr AHDB, a gynhaliwyd yn Sir y Fflint. Roedd yn galonogol gweld nifer o bobl ifanc yn y digwyddiad yn rhannu gwybodaeth.

Roedd Bob Vaughan a Zoe Henderson wedi cwrdd â Philip Hughes, Cyfarwyddwr EKOGEA UK, i drafod y gwahanol dechnegau a ddatblygwyd i drin slyri ac i leihau swm yr allyriadau amoniwm, yn ogystal ag uned waredu blastig i ddadelfennu plastig i'w gydrannau gwreiddiol. Trafodwyd y cymorth yr oedd ei angen er mwyn helpu i gyflenwi'r eitemau hyn i'r farchnad.

Rhoddodd Nichola Taylor, CNC, ddiweddariad ar Ddatganiadau Ardal i'r Is-grŵp, a thynnodd sylw'r aelodau at gyfres o weithdai sydd wedi'u

trefnu ledled Cymru. Bydd y gweithdai yn cael eu cynnal ar leoliad, a hoffai CNC annog cynifer o ffermwyr â phosibl i fynychu.

CG9: Dosbarthu dyddiadau gweithdai'r Datganiadau Ardal i aelodau'r Is-grŵp (Nichola Taylor, CNC)

7. Unrhyw Fater Arall

Nid oedd yna unrhyw fater arall.
